# Canllaw i Arbedwyr Ocsigen Ecolite 4000




baywater HEALTHCARE SAPIO GROUP

NHS
Providing NHS services

# Cynnwys


Sut i Gysylltu Arbedwr **3**

Gosod Eich Cyflenwad Ocsigen **4**

Diffodd y Cyflenwad Ocsigen **5**

Gwirio Pŵer Batri Eich Arbedwr **5**

Newid y Batris **6**

Cyfnodau Parhau Silindrau Wrth Ddefnyddio Arbedwr **7**

Datrys Problemau **8**






**GWELLA BYWYDAU**

# Sut i Gysylltu Arbedwr




Rhowch y silindr yn y bag a ddarparwyd




Rhowch yr arbedwr yn y boced




Cysylltwch y teclyn lleihau llif ar y tiwb troellog â chysylltydd allfa'r silindr




Sicrhewch y cysylltiad gyda'r clamp tiwb




Cysylltwch ben y tiwb troellog â'r cysylltydd silindr ar yr arbedwr




Cysylltwch y tiwbiau trwyn fforchog â'r cysylltiad ar ochr yr arbedwr

**Rhybudd**

Nid yw arbedwyr yn addas ar gyfer cleifion dan saith oed.

Peidiwch â'i ddefnyddio tra byddwch yn cysgu. Peidiwch â byrhau eich tiwbiau.

Dim ond pan fyddwch yn gwisgo tiwbiau trwyn fforchog y dylech ddefnyddio arbedwr. Ni fydd arbedwyr yn gweithio gyda mygydau.

# Gosod Eich Cyflenwad Ocsigen




Rhowch y tiwbiau trwyn fforchog amdanoch




Trowch yr arbedwr ymlaen drwy wasgu'r botwm on/off unwaith




Gan ddefnyddio'r botymau − +, dewiswch y gosodiad yn unol â chyfarwyddyd eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol




Trowch falf ochr y silindr i on/+, os oes un yno




Trowch y silindr ocsigen i raddfa llif o 4 litr y funud (lpm)




Dechreuwch anadlu drwy'r tiwbiau trwyn fforchog

**Rhybudd**

Cofiwch fod rhaid i'r silindr fod wedi'i osod ar gyfradd llif o 4 lpm a'r arbedwr wedi'i osod ar y gosodiad a gyfarwyddwyd

# Diffodd y Cyflenwad Ocsigen

1. Trowch y falf on/off ar y silindr yn araf i gyfeiriad y cloc i'r safle off
2. Daliwch i anadlu drwy'r tiwbiau trwyn fforchog nes byddwch chi'n teimlo nad oes rhagor o ocsigen yn dod trwodd (mae hyn yn lleihau'r gwasgedd yn y tiwbiau)
3. Tynnwch y tiwbiau trwyn fforchog i ffwrdd
4. Diffoddwch yr arbedwr

**Rhybudd**
Os yw'r silindr yn cael ei ddefnyddio heb yr arbedwr, cofiwch ei osod yn ôl i'r raddfa llif a ragnodwyd bob tro

# Gwirio Pŵer Batri Eich Arbedwr

Gwasgwch y botwm on/off a gwiriwch ddangosydd y batri a ddangosir.



Dylai batri'r arbedwr bara mwy na phedair wythnos. Gwiriwch lefel pŵer y batri bob tro cyn defnyddio eich arbedwr.

Cadwch fatris sbâr gyda chi bob amser. Os yw dangosydd y batri yn dangos lefel isel, meddyliwch am newid y batris cyn gadael cartref. Bydd yr arbedwr yn cael ei ddarparu gyda batris, eich cyfrifoldeb chi yw eu newid nhw.

(ar gael 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)

# Newid y Batris

Mae angen dau fatri AA ar yr arbedwr.

I newid y batri:

1. Gwnewch yn siŵr fod y ddyfais wedi'i diffodd
2. Tynnwch glawr y batris
3. Gwaredwch y batris sydd yno yn ddiogel
4. Rhowch fatris newydd i mewn yn unol â'r cyfarwyddyd yn y diagram ar y ddyfais.
5. Ar ôl i chi newid y batris, gwiriwch lefel y pŵer

**Rhybudd**
Defnyddiwch fatris alcalïaidd yn unig gydag arbedwr.

Nodwch: Mae eich arbedwr ocsigen yn parhau yn eiddo i Baywater Healthcare ac mae ar fenthyg i'r GIG



# Cyfnodau Parhau Silindrau Wrth Ddefnyddio Arbedwr

## Cyfnodau parhau silindr Freedom® 400

| Gosodiad | Cyfnod parhau bras gydag arbedwr |
|---|---|
| 1 | 32 awr 10 munud |
| 2 | 17 awr 40 munud |
| 3 | 11 awr |
| 4 | 8 awr 10 munud |
| 5 | 6 awr 30 munud |
| 6 | 5 awr 25 munud |
| 7 | 4 awr 40 munud |
| 8 | 4 awr 5 munud |

## Cyfnodau parhau silindr Freedom® 300

| Gosodiad | Cyfnod parhau bras gydag arbedwr |
|---|---|
| 1 | 23 awr 5 munud |
| 2 | 12 awr 40 munud |
| 3 | 7 awr 55 munud |
| 4 | 5 awr 50 munud |
| 5 | 4 awr 40 munud |
| 6 | 3 awr 50 munud |
| 7 | 3 awr 20 munud |
| 8 | 2 awr 55 munud |

Gall cyfnodau parhau silindrau wrth ddefnyddio arbedwr newid yn ddibynnol ar raddfa anadlu a gweithgarwch y claf.



# Datrys Problemau

Wrth anadlu i mewn gan ddefnyddio arbedwr, dylech chi glywed sŵn hisian. Os nad yw'r sŵn hwn i'w glywed, neu os nad oes ocsigen i'w deimlo'n dod o'r arbedwr:

- Gwiriwch fod yr arbedwr wedi'i droi ymlaen ar y gosodiad llif cywir a bod y silindr wedi'i droi i 4 lpm
- Gwiriwch fod yr holl diwbiau wedi'u cysylltu'n gywir a bod pŵer yn y batri

Os ydych chi'n dal i fethu â chlywed sŵn hisian neu'n teimlo nad oes ocsigen yn dod o'r arbedwr, tynnwch yr arbedwr a chysylltwch y tiwbiau trwyn fforchog yn uniongyrchol â'r silindr. Dylid gosod y silindr ar gyfradd llif yn unol â chyfarwyddyd eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol. Ffoniwch Baywater Healthcare.

## Cyflenwad ocsigen isel

| Sgrin arddangos | Larwm clywadwy | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| No 02 | Oes, ar ôl pob anadl | Gwiriwch y tiwbiau troellog rhag rhwystrau a phlygiadau<br><br>Gwiriwch bod digon o ocsigen yn y silindr |

## Monitro impylsau anadlu

| Sgrin arddangos | Larwm clywadwy | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| CHECK CANNULA NO BREATHING | Larwm am 30 eiliad yna mae'r arbedwr yn diffodd | Gwiriwch y tiwbiau trwyn fforchog rhag rhwystrau a phlygiadau |

## Monitro'r batris

| Sgrin arddangos | Larwm clywadwy | Gweithred |
|---|---|---|
| CHANGE BATTERY | Oes | Newidiwch y batris |

Os nad yw'r camau hyn yn datrys eich problem, tynnwch yr arbedwr, cysylltwch eich tiwbiau trwyn fforchog yn uniongyrchol â'r silindr a'i ddefnyddio ar y gyfradd llif a gyfarwyddwyd gan eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol. Ffoniwch Baywater Healthcare i gael cyngor.

(ar gael 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)

# Nodiadau

# Nodiadau

(ar gael 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)



I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:


**Baywater Healthcare**
Wulvern House
Electra Way
Crewe
Cheshire
CW1 6GW

Ffoniwch: 0800 373580

healthuk@baywater.co.uk

@BaywaterHealth

Baywater Healthcare

Baywater Healthcare


baywater HEALTHCARE SAPIO GROUP

ENHANCING LIVES

24/772/UK-JUL26 v2